# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 5 Hydref 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
E. Dole, C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens and J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: D.M. Cundy

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Corner, Swyddog Technegol
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod -. - 10.00  - 10.33 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 21AIN MEDI, 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 21 Medi 2020 yn gofnod cywir.**

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2019/20

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2019/20 a luniwyd yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru)

2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nodwyd bod yn rhaid cyhoeddi'r adroddiad erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn i gydymffurfio â'r Mesur.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fod Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2019/20 yn cael ei gymeradwyo.**

## 5. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2020 I MEHEFIN 30AIN 2020

Bu'r Bwrdd Gweithredol, yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 3 Mawrth 2020, yn ystyried adroddiad diweddaru ar weithgareddau rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Mehefin 2020.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. CYTUNDEB CYD-BWYLLGOR BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i benderfyniad Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe i ddiwygio Cymal 7 o Atodlen 12 o Gytundeb y Cyd-bwyllgor mewn perthynas â threfniadau Cworwm y Cyd-bwyllgor Craffu a oedd yn ymwneud â dileu Cymal 7.1 a'i ddisodli gyda'r canlynol:

"Ni fydd y Cworwm ar gyfer cyfarfodydd yn llai na 6 aelod, a rhaid iddo gynnwys o leiaf 1 aelod o bob un o'r 4 Awdurdod. Ni chaniateir i'r Cyd-bwyllgor Craffu fynd ati i graffu ar fater sy'n ymwneud â phrosiect os nad yw'r aelod sy'n cynrychioli'r Cyngor sy'n ymwneud â'r prosiect hwnnw yn bresennol yn y cyfarfod"

Dywedwyd wrth y Bwrdd Gweithredol, cyn y gall unrhyw welliant i Gytundeb y Cyd-bwyllgor ddod i rym, byddai angen iddo gael ei ystyried yn y lle cyntaf gan y Cyd-bwyllgor ac yna ei osod gerbron pob un o'r 4 awdurdod lleol i'w ystyried a'i fabwysiadu. Yn unol â'r cytundeb hwnnw, roedd y Cyd-bwyllgor wedi ystyried y gwelliant ar 9 Gorffennaf 2020 ac roedd bellach yn cael ei gyflwyno i bob un o'r 4 awdurdod i'w cadarnhau

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:**

**6.1 gymeradwyo penderfyniad Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe i'r gwelliant o ran trefniadau cworwm y Cyd-bwyllgor Craffu, fel y nodir yn yr adroddiad.**

**6.2 awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i wneud gweithred o amrywiad er mwyn gweithredu'r newidiadau i Gytundeb y Cyd-bwyllgor.**

## 7. FERSIWN ADNEUOL DRAFFT O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar y Cytundeb Cyflawni diwygiedig a diweddariad o ran Covid-19 mewn perthynas â mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033.

Atgoffwyd y Bwrdd fod y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2019 wedi cymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos (a gafodd ei ymestyn i 8 wythnos) ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuol 2018-2033 ynghyd â'i ddogfennau ategol (Asesu Rheoliadau Cynefinoedd ac Arfarniad Cynaliadwyedd) a dau Ganllaw Cynllunio Atodol drafft. Atgoffwyd y Bwrdd hefyd fod ymgynghoriad 3 wythnos ychwanegol wedi'i gynnal mewn ymateb i effaith y cyfyngiadau symud. Roedd yr adroddiad cyfredol yn cynnwys effaith Covid 19 ar yr ymgynghoriad hwnnw a’r gwaith oedd yn mynd rhagddo o ran paratoi'r CDLl diwygiedig. Roedd hefyd yn ystyried goblygiadau'r achosion o coronafeirws ar yr amserlen ar gyfer mabwysiadu'r CDLl a'r cynnig i ddiwygio'r Cytundeb Cyflawni (a'i amserlen a’r Cynllun Cynnwys y Gymuned) cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gytuno.

Tynnwyd sylw'r Bwrdd Gweithredol at yr argymhelliad yn yr adroddiad i ysgrifennu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn gofyn am ddiwygio'r ddeddfwriaeth ynghylch darpariaethau’r ‘dyddiad terfynol’ ar gyfer y CDLl presennol. Dywedwyd bod gohebiaeth wedi dod i law gan y Gweinidog yn cadarnhau na fyddai'r darpariaethau hynny'n gymwys i Awdurdodau Lleol yr oedd eu cynlluniau ar waith erbyn 4 Ionawr 2016. Gan fod CDLl y Cyngor wedi'i fabwysiadu yn 2014, ni fyddai'r ddeddfwriaeth yn berthnasol, a byddai'n parhau i fod yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau nes iddo gael ei ddisodli gan y CDLl Diwygiedig. O ganlyniad, gellid tynnu yn ôl yr argymhelliad yn yr adroddiad i ysgrifennu at y Gweinidog.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:**

**7.1 Gymeradwyo cynnydd parhaus Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018 – 2033 (a dogfennau ategol) a'r dull a amlinellir yn yr adroddiad;**

**7.2 Cymeradwyo Diwygio'r Cytundeb Cyflawni i gynnwys estyniad o 7 mis i'r amserlen a diwygiadau dilynol eraill gan gynnwys y rhai sy'n deillio o Covid-19;**

**7.3 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud addasiadau teipograffyddol, cartograffig a/neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuol Drafft**

## 8. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o ran materion brys.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**